



Crynodeb o'r Cynnig

30 awr yr wythnos o addysg feithrin gynnar a gofal plant i blant 3 a 4 oed sydd â rhieni sy'n gymwys ac sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Bydd y 30 awr yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth bresennol y Cyfnod Sylfaen Meithrin (CSM) sydd ar gael i bob plentyn 3 a 4 oed a'r gofal plant ychwanegol a ariennir ar gyfer teuluoedd cymwys.

Sawl awr o ofal plant?

Cynigir uchafswm o 30 awr o gyfuniad o addysg a gofal plant. Cyfrifir nifer yr oriau gofal plant a ariennir ar sail darpariaeth Cyfnod Sylfaen eich awdurdod lleol ar hyn o bryd, fel na chynigir mwy na chyfanswm o 30 awr.

Nid yw'n ofynnol i rieni fanteisio ar yr addysg gynnar sydd ar gael iddynt er mwyn manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig. Fodd bynnag, bydd nifer yr oriau a fydd ar gael iddynt yn cynnwys yr oriau hyn, p'un a ydynt yn manteisio arnynt ai peidio.

Pwy fydd yn gweithredu'r Cynnig?

Gall pob lleoliad gofal plant cofrestredig weithredu'r cynnig. Ni fydd y Cynnig ar gael drwy unrhyw leoliad neu unigolyn nad yw wedi'i gofrestru gydag AGC (neu Ofsted yn Lloegr). Caiff rhieni cymwys ddewis manteisio ar y gofal plant sydd ar gael iddynt yn unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig sy'n gweddu i'w hamgylchiadau personol a theuluol, boed o fewn y sir neu'r tu allan iddi (gan gynnwys Lloegr), cyn belled ag y bydd y lleoliad yn ddarparwr cofrestredig ac wedi cytuno i gymryd rhan yn y Cynnig.

Pryd all teuluoedd fanteisio ar y Cynnig?

Bydd y Cynnig ar gael o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd plentyn (gweler y tabl isod) nes y mis Medi yn dilyn eu 4ydd pen-blwydd a chael cynnig lleoliad addysg llawn amser – sy'n cyd-fynd â'r Cyfnod Sylfaen Meithrin.

Dyddiad Geni	Cymwys i'r Cynnig o:	Ceisiadau ar Agor:
01/09/2017 – 31/12/2018	10/01/2022	Ar agor
01/01/2019 – 31/03/2019	25/04/2022	Ar agor
01/04/2019 – 31/08/2019	05/09/2022	20/06/2022

Gall rhieni fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn, cyn belled ag y byddant yn gymwys i wneud hynny. Dylai rhieni allu manteisio ar y Cynnig ar unrhyw adeg yn ystod y tymor, cyn belled a bod eu plentyn yn gymwys o gychwyn y tymor hwnnw, neu yn gynt na hynny. Mae hyn yn cynnwys rhieni sy'n symud i mewn i ardal beilot neu yn cychwyn gweithio.

Bydd bob rhiant a aseswyd yn gymwys i hawlio'r gofal plant a ariennir yn derbyn llythyr cadarnhad. Mae'r gofal plant a ariennir yn cychwyn ar ôl i rieni dderbyn y llythyr yma. Nid oes modd ol-dyddio unrhyw gais.

Ni fydd plant yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant unwaith y bydd eu hawdurdod lleol yn cynnig lle iddynt mewn addysg llawn amser.

Pwy all fanteisio ar y cynnig?

I fanteisio ar elfen gofal plant y cynnig, rhaid i'r canlynol fod yn wir am y rhieni a'r gwarcheidwaid:

- Eu bod yn byw yng Ngwynedd, Môn neu Conwy
- Eu bod wedi'u cyflogi neu'n hunangyflogedig ac yn byw yng Nghymru yn barhaol. **Rhaid i'r ddau riant** fod yn gweithio mewn teulu dau riant, neu'r unig riant fod yn gweithio mewn teulu un riant;
- Rhaid i rieni fod yn ennill cyflog sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr o'r isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw cenedlaethol bob wythnos.

At ddiben y cynlluniau, bydd angen i rieni brofi eu bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, drwy eu henillion. Gweler y tabl isod sy'n dangos cyfraddau isafswm cyflog ac incwm blynyddol wythnosol / misol yn seiliedig ar weithio 16 awr;

	FESUL AWR	WYTHNOSOL	MISOL	BLYNYDDOL
23+	9.50	152.00	658.66	7904.00
21-22	9.18	146.88	636.48	7637.76
18-20	6.83	109.28	473.55	5682.56
O dan 18	4.81	76.96	333.49	4001.92
Apprentis	4.81	76.96	333.49	4001.92

Ni fydd rhieni'n gymwys os ydynt yn ennill mwy na £100,000 y flwyddyn- trothwy fesul riant yw hwn.

Lle bydd rhieni wedi gwahanu, ond lle nad yw eu gwarchodaeth dros y plentyn yn gyfartal, bydd y riant sy'n brif warchodwr yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig (os yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd). Lle bydd rhieni yn rhannu gwarchodaeth gyfartal, bydd angen enwebu **un** riant i fanteisio ar y Cynnig.

Bydd angen i rieni, gwarcheidwaid, llysrieni a phartneriaid sy'n byw gyda riant i gyd fodloni'r meini prawf cymhwysedd er mwyn i blentyn sy'n byw ar yr aelwyd honno allu manteisio ar y Cynnig.

Rhieni a fyddai fel arfer wedi cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd incwm ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ond nad ydyn nhw nawr o ganlyniad i Covid-19

Bydd rhieni sy'n gwneud cais am y Cynnig yn cael eu hystyried yn gymwys os gallant dystiolaethu y byddent fel arfer yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd enillion ar gyfer y Cynnig.

Bydd angen i chi dystiolaethu, o ganlyniad i Covid-19, bod eich enillion ym mis Ionawr / Chwefror 2020 wedi cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd incwm ar gyfer y Cynnig ond eich bod wedi gweld gostyngiad mewn incwm ers hynny.

Absenoldeb Rhiant

Gall rhieni sydd ar gyfnod absenoldeb rhiant wneud cais am y cynnig gofal plant os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra cyn mynd ar absenoldeb rhiant statudol. Fodd bynnag, maent ond yn gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant yn ystod cyfnod o absenoldeb rhiant statudol.

Cyfnod Eithrio Dros Dro

Os bydd sefyllfa rhiant yn newid a'i fod, felly, yn anghymwys, caniateir cyfnod eithrio o 8 wythnos pan fydd yn gallu parhau i fanteisio ar y Cynnig.

Eithriadau i'r Gofynion Cymhwysedd

Mae yna rai amgylchiadau pan fydd rhieni yn gallu manteisio ar y Cynnig heb fodloni'r meini prawf cymhwysedd, sef:

- Pan fo un neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle ar gyfnod salwch statudol neu yn derbyn tâl mamolaeth neu dadolaeth statudol;
- Bod un rhiant yn gyflogedig a bod un rhiant yn anabl neu'n analluog ar sail derbyn budd-daliadau penodo (weler tudalen nesaf);
 - Lle bydd un rhiant yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a'r rhiant arall yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol, bydd y plentyn yn dal i allu manteisio ar y cynnig:
 - Budd-dal analluogrwydd;
 - Lwfans gofalwyr;
 - Lwfans anabledd difrifol;
 - Budd-dal analluogrwydd hirdymor;
 - Lwfans cyflogaeth a chymorth (yn seiliedig ar incwm);
 - Credydau yswiriant gwladol ar sail anallu i weithio neu allu cyfyngedig i weithio.

Effaith ar fudd-daliadau

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau unigol, fe all hawlio 30 awr effeithio ar rai o'r budd-daliadau rydych yn eu cael yn bresennol. Er enghraifft:

- Yr elfen gofal plant o Gredyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol
- Gofal plant di-dreth / Talebau Gofal Plant
- Budd-dal Tai

Os cyfyngiad ar y nifer o leoliadau a ellir eu defnyddio mewn unrhyw ddiwrnod?

Bydd y cynnig yn caniatáu i blant fynychu uchafswm o ddau leoliad gofal plant cofrestredig yn ychwanegol i'w lleoliad Cyfnod Sylfaen Meithrin mewn unrhyw un diwrnod.

Yn ystod y cyfnod gwyliau gall plentyn felly fynychu uchafswm o ddau leoliad cofrestredig fel rhan o'r cynnig.

Oes cyfyngiad i'r nifer o ddiwrnodau, amseroedd o'r dydd a nifer yr oriau a ellir eu defnyddio o dan y cynnig?

Gall rhieni ddewis defnyddio gofal plant ar unrhyw adeg o'r dydd yn unol â'u gofynion. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhiant fydd dod o hyd i ddarparwr gofal plant fydd yn gallu cyfarfod â'r gofynion rhieni.

All rhieni gasglu neu ‘fancio’ oriau?

Ni chaniateir i oriau gael eu ‘casglu’ neu eu ‘bancio’. Bydd 30 awr ar gael i rieni pob wythnos, yn gyfuniad o ofal plant a’r cyfnod sylfaen meithrin. Dewis y rhiant fydd faint o’r oriau rheiny byddant yn eu defnyddio. Os nad fydd y 30 awr wedi eu defnyddio mewn wythnos, byddant wedi eu ‘colli’.

Beth fydd y gyfradd tâl ar gyfer darparwyr o dan amodau’r cynnig?

Bydd pob darparwr yn derbyn tâl o £5.00 yr awr am bob plentyn sy’n rhan o’r cynnig. Mae’r tâl yma yn eithrio cost bwyd. Gall y darparwr felly godi tâl ychwanegol ar rieni am fwyd. Fodd bynnag ni all hyn fod yn fwy na £9.00 y diwrnod.

Canllaw Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chodi tâl ychwanegol fel rhan o’r cynnig ar gyfer gofal dydd llawn (tua 10 awr) ydi na ddylid codi mwy na £9.00 y dydd ar rieni (byddai hyn yn cynnwys tri phryd bwyd am £2.50 yr un a 2 byrbryd am 75c yr un). Am sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) ni ddylid codi mwy na £5.75 y dydd ar rieni (dau bryd bwyd am £2.50 yr un a byrbryd am 75c yr un). Mewn gofal sesiynol lle na ddarperir pryd bwyd ond lle darperir byrbryd, y canllaw yw na ddylid codi mwy na 75c y dydd ar rieni am y byrbryd.

Gall darparwyr hefyd godi tâl am gludiant a gweithgareddau ychwanegol megis tripiâu oddi ar y safle.

Ni all darparwyr godi mwy na’r tâl o £5.00 yr awr a ddynodwyd ar gyfer y cynnig yma hyd yn oed os ydynt yn arfer codi mwy na hyn am eu gwasanaeth.

Sut fydd y cynnig yn gweithio tu allan i’r tymor ysgol?

Bydd y cynnig gofal plant ar gael am 48 wythnos y flwyddyn. Bydd darpariaeth cyfnod sylfaen meithrin ar gael am 39 wythnos y flwyddyn, felly bydd rhieni cymwys yn gallu cael gofal plant am y 9 wythnos arall o’r flwyddyn.

Gall rhieni dderbyn eu 9 wythnos o ofal plant yn ystod y gwyliau pryd maent eisïau. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y rhieni yw dod o hyd i ddarparwr sy’n darparu’r gofal sy’n cyfarfod a’u hanghenion. Yn ystod cyfnod bydd rhaid i rieni gymryd y gofal yma fesul wythnos. Ni ellir trosglwyddo oriau gofal o un wythnos i’r llall.